Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru
Wales Institute of Social and Economic Research and Data

**Y gorffennol yn y presennol**
**Ystyried gwaith codi glo a streic y glowyr 1984- 85**
**Adeilad Bute Prifysgol Caerdydd**
**2 Mawrth 2024**

Cynhelir y gynhadledd a hithau'n 40 mlynedd ers dechrau'r streic ym mis Mawrth 1984. Mae'n dilyn digwyddiadau tebyg a drefnwyd yng Nghaerdydd yn 2004 a 2014. Mae'n cynnwys adroddiadau gweledol a phersonol o'r streic ei hun, ynghyd â myfyrdodau hanesyddol a chymdeithasegol gan drafod arwyddocâd y digwyddiad ar gyfer cyfundrefn undebau llafur a bywyd cymunedol. Bydd y rhain yn cael eu cyfuno â thrafodaethau cyfoes ac ymchwil ddiweddar i'r newidiadau sydd wedi digwydd mewn economïau meysydd glo fel yr adlewyrchir yn niwylliant a strwythur dosbarth.

**Y Siaradwyr**

**Kjell-Ake Andersson**
Ffotograffydd, cyfarwyddwr ffilm ac awdur sgrin o Sweden sydd wedi ennill nifer o wobrau. Enwebwyd ei ffilm 1992 *Night of the Orangutan* ar gyfer y ffilm orau, y cyfarwyddwr gorau a'r sgript ffilm orau yng Ngwobrau Guldbagge a gynhelir am yr wythfed tro ar hugain. Cydnabyddir ei astudiaeth ffotograffig o Fargoed yn 1972 yn un sy'n rhoi'r portread gorau o waith glo yn y cyfnod hwnnw. Mae ei ffilm *Breaking Point* a wnaed yn Oakdale ym mis Chwefror 1985 yn cyfleu'r teimladau; y gobeithion a'r ofnau ar y pryd wrth i bobl ei chael hi'n anodd goroesi.

**Helen Blakely**
Cydymaith Ymchwil yn WISERD ers 2015 fel cymdeithasegydd ansoddol sydd â diddordeb mewn datblygu dulliau ethnograffig a bywgraffyddol. Mae hi wedi gweithio ar brosiectau sy'n ymwneud â gwaddol y diwydiant glo, i gofio am drasiedïau, a'u coffau. Helen Blakely a Kate Moles, "Everyday practices of memory: Authenticity, value and the gift" *Sociological Review* 67:3 (2019) 621–634.

**Ben Curtis**
Awdur *The South Wales Miners: 1964-85.* Cymrawd ymchwil Prifysgol Wolverhampton ar y prosiect a ariennir gan yr Academi Brydeinig On Behalf of the People: Work, Community and Class in the British Coal Industry 1947-1994.

**Rhys Davies**
Economegydd Llafur a Chyd-gyfarwyddwr WISERD yng Nghaerdydd. Mae wedi gwneud gwaith arloesol i fapio aelodaeth undebau llafur ar draws y DU, yn enwedig mewn perthynas â'r hen feysydd glo. Gweler (gyda H. Beynon, H. Blakely a A. Bryson) The persistence of union membership within the coalfields of Britain. British Journal of Industrial Relations 59(4), tt. 1131-1152. (10.1111 / bjir.12588) a (gyda A Bryson) Family, place and the intergenerational transmission of union membership. British Journal of Industrial Relations 57(3), tt. 624-650. (10.1111 / bjir.12435).

**Steve Davies**
Cymrawd Ymchwil Anrhydeddus ym Mhrifysgol Caerdydd. Ac yntau yn gyn-swyddog undeb llafur mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys undebau llafur, streicio, gwasanaethau cyhoeddus a phreifateiddio.

**Dai Donovan**
Mae Dai yn gyn-löwr o arferai weithio mewn golchfa lo adeg streic y glowyr yn 1984/5. Roedd yn aelod o Grŵp Cymorth Glowyr Castell-nedd, Dulais a Chwm Tawe a chwaraeodd ran flaenllaw mewn sefydlu grwpiau cymorth ledled y DU. Efallai mai'r mwyaf amlwg o'r rhain oedd Lesbiaid a Hoywon yn Cefnogi'r Glowyr (LGSM). Adroddir y stori yn y ffilm nodwedd "Pride". Yn y ffilm mae Dai yn cael ei chwarae gan Paddy Considine. Wedi'r streic, aeth Dai i'r brifysgol ac yn ddiweddarach daeth yn swyddog llawn amser i BECTU yr undeb darlledu. Mae Dai yn gredwr cryf yn yr egwyddor o 'Gynghreiriaeth' neu, fel mae Dai yn ei alw . . . Undod!

**David Edgerton**
Ar ôl dysgu economeg gwyddoniaeth a thechnoleg a hanes gwyddoniaeth a thechnoleg ym Mhrifysgol Manceinion, daeth yn gyfarwyddwr sefydlu'r Ganolfan Hanes Gwyddoniaeth, Technoleg a Meddygaeth yng Ngholeg Imperial Llundain, a'r Athro Hans Rausing. Mae wedi ysgrifennu nifer o lyfrau gan gynnwys: *Warfare State: Britain 1920-1970* and *The Rise and Fall of the British Nation: A Twentieth Century History.*

**Richard Gater**
Yn rhan o WISERD, mae'n ysgrifennu am faterion yn ymwneud â gwrywdod yn arbennig dynion o'r dosbarth gweithiol ar ymylon cymdeithas yng nghymoedd De Cymru sydd wedi dad-ddiwydianeiddio. Gweler er enghraifft: "Amalgamated Masculinities: The masculine identity of contemporary marginalised working call men". *Sociology 2022..*

**Keith Gildart**
Cyn löwr, athro llafur a hanes cymdeithasol Prifysgol Wolverhampton. Prosiect yr Academi Brydeinig On Behalf of the People: Work, Community and Class in the British Coal Industry 1947-1994. Golygydd *Dictionary of Labour Biography,* awdur *North Wales Miners: A fragile Unity 1945-1996* ac *Images of England Through Popular Music.*

**Joanna Gilmore**
Mae Joanna yn Uwch-ddarlithydd ym Mhrifysgol Efrog. Wedi ei genni yn Swydd Durham yn ystod streic y glowyr 1984-5. Cyd-sefydlodd y Northern Police Monitoring Project, ac yn 2021, dechreuodd lythyr agored a arwyddwyd gan dros 1,000 of academyddion y gyfraith yn gwrthwynebu cynigion i gyfyngu protest o dan y Mesur Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd. Cafodd ei phrosiect "Lawyers at the Coal Face: Legal Solidarity and the 1984-5 Miners' Strike" ei gefnogi gan British Academy/Leverhulme.

**John (Arglwydd) Hendy C. B,**
Bargyfreithiwr, Athro anrhydeddus, cyfadran y gyfraith Coleg y Brifysgol Llundain Cadeirydd Sefydliad Hawliau Cyflogaeth. Cynrychiolodd yr NUM yn yr ymgyfreitha sifil yn sgil streic y glowyr 1984-85. Yn 1992 cynrychiolodd undebau glowyr yn yr Uchel Lys yn erbyn ymdrechion i gau 31 o byllau glo. Yn 2011 fe'i disgrifiwyd gan *The Lawyer* fel *"barrister champion of the trade union movement".*

**Jane Holgate**
Athro Cysylltiadau Cyflogaeth, Prifysgol Leeds. Mae wedi ysgrifennu'n eang ar newidiadau mewn gweithleoedd, sefyllfa gweithwyr mudol, a rôl undebau llafur mewn cyd-destun sy'n newid. Mae ei llyfr diweddar *Arise: Power, Strategy and Union Resurgence,* yn trafod cwestiynau presennol yn ymwneud â phŵer mewn lleoliadau cyflogaeth. Mae yn cyflwyno podlediad *Unions in a Hostile Environment.*

**Ian Isaac**
Arferai fod yn löwr ac yn ysgrifennydd cyfrinfa Dewi Sant ym Maesteg. Cymerodd ran ganolog yn y gweithgareddau'n gysylltiedig â streic y glowyr ac mewn ymdrechion i atal cau'r pwll glo yn 1985. Cafodd yr hanes a ysgrifennodd yn 1978 sef *The Decline of Mining ym Maesteg* ei ddatblygu a'i ddiweddaru yn ei hunangofiant *When We Were Miners* lle mae'n tynnu ar ei brofiad i ddarlunio'r cyfnod hwnnw.

**Nick Jones**
Cyn uwch-ohebydd gwleidyddol a diwydiannol y BBC gyda dros hanner can mlynedd o brofiad ym maes newyddiaduraeth brint a darlledu. Gweler www.nicholasjones.org.uk. Mae'n awdur nifer o lyfrau am wleidyddiaeth a chysylltiadau diwydiannol Prydain, yn fwyaf diweddar *The Lost Tribe: Whatever Happened to Fleet Steet's Industrial Correspondents* ac mae wedi ysgrifennu'n helaeth ar faterion yn ymwneud â streic y glowyr.

**Sian Moore**
Athro a Chyfarwyddwr y Ganolfan Ymchwil ar Waith a Chyflogaeth (CREW) ym Mhrifysgol Greenwich. Mae hi'n gyd-brif olygydd *Work in the Global Economy* ac yn awdur nifer o lyfrau gan gynnwys *New Trade Union activists - class consciousness or social identity?* Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar rywedd a dosbarth ac mae ganddi ddiddordeb parhaus yn hanes menywod yn y mudiad llafur.

**Martin O'Neill**
Daw Martin O'Neill o Ferthyr Tudful yn wreiddiol. Dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf, mae wedi bod yn ymwneud ag amrywiol fentrau datblygu cymunedol, addysg ac ymchwil yn ardal De Cymru. Ar hyn o bryd mae'n gynghorydd cymuned i Ystumllwynarth yn Abertawe ac yn Gadeirydd Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**Christine Powell**
Roedd Christine yn athrawes Ffiseg cyn ymddeol, ac mae hi'n wraig falch i löwr a fu'n streicio yn 1984-5 pan roedd hi'n weithgar yng Ngrŵp Cefnogi Glowyr Castell-nedd a'r Cylch ac yn drysorydd i'r mudiad; rôl sy'n dal ganddi heddiw. Mae hi'n dal yn un o Ymddiriedolwyr Neuadd Lesiant Onllwyn ac mae hi wedi bod yn ymwneud ers tro byd â nifer o fudiadau cymunedol gan gynnwys Cyngor Cymuned Blaendulais lle'r oedd yn gadeirydd.

**Geoff Shears**
Cyfreithiwr a fu'n gweithio am flynyddoedd lawer gyda chwmni Thompson a thua'r diwedd fel Prif Weithredwr y cwmni. Roedd yn byw yn Newcastle yn ystod streic 1984-5 a chymerodd ran ganolog mewn cynnig cymorth cyfreithiol i lowyr ac yn ddiweddarach i NUM Durham. Bu'n ymgynghorydd tymor hir i lawer o undebau llafur ac mae wedi bod yn aelod allweddol o'r Sefydliad Hawliau Cyflogaeth.

**Polly Smythe**
Gohebydd mudiad Llafur ar gyfer Novara Media, a ariennir gan Sefydliad Rosa Luxemburg. Mae hi wedi ysgrifennu'n eang ar faterion llafur cyfoes, gan gynnwys brwydrau am hawliau undebau yn Amazon, a gwrthwynebu deddfwriaeth y llywodraeth yn erbyn streicio gan ddyfynnu geiriau

ysgrifennydd cyffredinol RMT "*meek compliance would lead to oblivion*" Mick Lynch Asks Unions to Step Up to Defy Anti-Strike Legislation | Novara Media.

**Kat Simpson**
Uwch Ddarlithydd, mewn Addysg, Prifysgol Huddersfield awdur *Social Haunting: Education and the Working Class. A Critical Marxist Ethnography in a former mining village* a chyd-olygydd gyda Robin Simmons ar y casgliad o draethodau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar *Education, work, and Social Change in Britain's former Coalfields: The Ghost of Coal.*

**Ron Stoat**
Dechreuodd Ron Stoate weithio yn y pwll glo pan oedd yn 16 oed. Treuliodd 14 mlynedd yng Nglofa Brittania ac 11 mlynedd arall yng Nglofa Penallta nes iddi gau ar 1 Tachwedd 1991. Glöwr 34 oed oedd Ron pan ddechreuodd y streic, yn gweithio ym mhwll glo Cwm Rhymni ym Mhenallta, sir Caerffili. Roedd yn aelod gweithredol o'r NUM a bu'n ymwneud yn agos â'r gweithgarwch picedu. Gwelodd hefyd duedd yr heddlu â'i lygaid ei hun, gan iddo gael ei arestio bedair gwaith, ac roedd yn bresennol yn nherfysg yr heddlu yn Orgreave.

**Shavanah Taj**
Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru ers 2020, cyn Ysgrifennydd Cymru dros yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Cyn ymuno â PCS fel swyddog llawn amser yn 2002, arferai Shavanah weithio ym maes manwerthu, canolfannau galwadau a'r trydydd sector. Rhwng 2018 a 2019, bu'n Llywydd TUC Cymru.

**Phil Taylor**
Mae Phil Taylor yn dysgu gwaith a chyflogaeth ym Mhrifysgol Strathclyde. Mae'n gyd-awdur (gyda Sian Moore) *Cabin Crew Conflict: The British Airways Dispute 2009-11* (Pluto, 2019) a *Fighting Fire: 100 years of the Fire Brigades Union* (New Internationalist, 2018). Mae ei ymchwil dros dri degawd ar gysylltiadau diwydiannol, iechyd a diogelwch gweithwyr, globaleiddio, trefnu undebau llafur a'r broses lafur i gyd wedi cael y nod o gryfhau trefniadaeth undebau a hunan-weithgarwch gweithwyr.

**Natalie Thomlinson**
Athro Cyswllt Hanes Prifysgol Reading. Awdur "I was never very clever but I always survived!"profiadau addysgol menywod yng nghymunedau maes glo Prydain 1944-1990 Yn: Simmons, R. a Simpson, K., (gol.) *Education, Work and Social Change in Britain's Former Coalfield Communities;* gyda Florence Sutcliffe-Braithwaite, "Vernacular discourses of gender equality in the post-war British working class", *Past and Present,* 254(1) tt277-313 a'r gyfrol a gyhoeddwyd yn fwy diweddar *Women in the Miners' strike 1984-85.* OUP 2023.

**Valerie Walkerdine**
Mae hi'n athro ymchwil nodedig ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae ganddi gryn brofiad o ddatblygu dulliau seico-gymdeithasol o astudio rhywedd a dosbarth. Cafodd ei llyfr (gyda Luis Jimenez) *Gender, Work and Community after de Industrialsation,* ei gyhoeddi yn 2012. Roedd ei gwaith diweddaraf yn canolbwyntio ar effaith a'r farchnad lafur fyd-eang gan roi sylw penodol i effaith dad-ddiwydiannu ar y gymuned dosbarth gweithiol ar ôl Brexit.

**Granville Williams**
Bu'n newyddiadurwr yn Swydd Efrog am dros hanner can mlynedd. Mae'n olygydd *"It's the Media, Stupid!" The Media, the 2019 Election and the Aftermath* (2020) ac yn golygu Media North sy'n ymgyrchu dros Ryddid y Wasg a Darlledu. Mae wedi golygu sawl casgliad ar streic y glowyr a'r canlyniad gan gynnwys *Shafted* and *Settling Scores: The Media the Police and the Miners' strike.*

**Victoria Winkler**

Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan ers 2002. Mae hi wedi datblygu'r elusen i fod yn felin drafod fwyaf dylanwadol a phroffil uchel yng Nghymru heddiw. Hi sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y Sefydliad, ac mae ganddi arbenigedd arbennig mewn perthynas â thlodi, anghydraddoldeb a datblygiad economaidd.

**Beth Winter AS**
Beth Winter yw Aelod Seneddol Llafur Cwm Cynon, lle cafodd ei magu a lle mae'n dal i fyw gyda'i gŵr a'i phlant. Mae hi'n siarad Cymraeg ac yn awyddus i hyrwyddo'r iaith. Mae ganddi ddoethuriaeth o Brifysgol Abertawe mewn allgáu cymdeithasol a'i effaith ar bobl hŷn. Cyn ymuno â'r senedd, bu'n gweithio i Undeb Prifysgolion a Cholegau Cymru, a chyn hynny i Shelter yn weithiwr achos dros Rondda Cynon Taf, ac yn weithiwr cymunedol ym Mhen-y-waun.